Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 25 Hydref 2014 yn Aberystwyth

2014.33 ***Addoli Agoriadol a Chroeso***

Mae'n bleser gennym gael croesawu 37 o Gyfeillion yma heddiw fel a restrir ar y daflen bresenoldeb. Mae rhan o'r Epistol o Gynulliad Cyfarfod Blynyddol 2014 wedi'i ddarllen yn ystod ein haddoli agoriadol.

Mae'r Cyfeillion canlynol wedi'u penodi gan eu Cyfarfodydd Ardal i fod yn bresennol:

Gogledd Cymru: Frances Voelcker
De Cymru: Liz McDermott

Nid yw cyfarfodydd ardal eraill yng Nghymru wedi penodi Cyfeillion i fod yn bresennol ar yr achlysur hwn ond mae'r canlynol wedi cytuno i adrodd yn ôl wrth eu cyfarfodydd ardal perthnasol:

Canolbarth Cymru: Dorothy Bell
Gororau'r De: Hilary Beynon

Mae Deborah Rowlands a Christine Trevett wedi'u penodi i fod yn Henaduriaid heddiw.

2014.34 ***Calon a The Friend***
Mae Gwyneth Clapham wedi cytuno i ysgrifennu adroddiad ar y cyfarfod hwn ar gyfer *The Friend* ac i *Calon*.

2014.35 Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol 4 Awst
Mynychodd Maryse Newnham y Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol yng Nghadeirlan Llandaf ar ein rhan. Rydym wedi clywed ei hadroddiad, sydd wedi'i atodi. Clowyd yr adroddiad gyda Neges Tangnefedd ac Ewyllys Da oddi wrth bobl ifainc Cymru i bobl ifainc o gwmpas y byd. Rydym yn diolch i Maryse am fynychu'r gwasanaeth ar ein rhan.

2014.36 ***Yr Eisteddfod a Chynulliadau'r Cyfarfod Blynyddol – sut rydym yn osgoi gwrthdaro rhwng y dyddiadau?***
Ni fydd y Cynulliad nesaf, yn 2017, yn cael ei gynnal yn yr un wythnos â'r Eisteddfod oherwydd bydd Cynulliad y Cyfarfod Blynyddol yn dechrau ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Mae Deborah Rowlands wedi siarad am hyn gan ei bod ar hyn o bryd yn rhan o'r pwyllgor sy'n pennu'r dyddiadau. Mae Pwyllgor Agenda'r Cyfarfod Blynyddol yn cofio anghenion y Cyfeillion yng Nghymru, ac er 1997 maent yn ceisio osgoi gwrthdaro.
Mae ein presenoldeb yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn bwysig nid yn unig oherwydd mai'r prif ddigwyddiad diwylliannol yng Nghymru yw hi, ond oherwydd i Grynwyr mae hyn yn ymwneud â'n gweinidogaeth i bobl Cymru. Rydym yn ddiolchgar na fydd problem yn 2017 ac yn gobeithio y bydd y mater hwn yn cael ei gadw mewn cof yn y dyfodol.
Anfonwn y cofnod hwn at glerc pwyllgor yr agenda.

2014.37 Diwrnodau Rhanbarthol Dioddefiadau
Cynhaliwyd **Cynulliad Rhanbarthol cyntaf y Cyfarfod Dioddefiadau** yn Neuadd Gymunedol Glantwymyn ar 18 Hydref; bu 25 o gyfranogwyr a 3 hwylusydd yn bresennol. Nid oedd yr un ohonom yn sicr ynglŷn â beth i'w ddisgwyl - i lawer ohonom, aeth y tu hwnt i bob disgwyl. Bu'r holl gyfranogwyr yn cyfrannu at ysgrifennu'r adroddiad - dyma ychydig yn unig o'r sylwadau a wnaed:

"Diwrnod oedd wir yn procio'r meddwl a wnaed yn fwy pleserus o lawer na fyddai ei deitl yn ei awgrymu efallai drwy hwyluso medrus a chyfeillgar iawn dau aelod o'r Cyfarfod Dioddefiadau ynghyd â'r Clerc Cofnodi Cynorthwyol. Roeddent yn gwneud i ni weithio'n galed, ond prin i ni sylwi.

Cefais yr ymarferiad "Profi Pryderon" yn arbennig o fuddiol – datgelodd yr angen i gyfarfodydd lleol ac ardal hogi eu ffocws ar ryw bryder cyn disgwyl i'r Cyfarfod Dioddefiadau weithredu.

Er fy mod wedi darllen *Becoming Friends* sawl gwaith, roeddwn heb sylweddoli pa mor bwysig yw'r Cyfarfod Dioddefiadau ym mywyd y Gymdeithas. Mae cyn lleied o'i weithgareddau'n ymdreiddio drwodd i Gyrddau Lleol, er gwaetha'r ffaith bod cynrychiolydd mor frwdfrydig ac effeithlon gennym â Frances.

Dysgais fod y Cyfarfod Dioddefiadau'n yn fwy nag y tybiais, tua 100. Braf cael y cyfle i ddod i nabod pobl o'r Cyfarfod Ardal arall.

Roedd y diwrnod yn arbennig o dda yn fy marn i. Des i'n barod i gael fy niflasu ond dyma fo'n cael gafael yndda i. Cyfarfod addoli i fusnes yw hwn; roeddwn wedi cymryd mai llwyth o fusnes diflas fyddai fo."

Bydd digwyddiad De Cymru/Gororau'r De ar 22 Tachwedd yn Nhŷ Cwrdd y Cyfeillion yng Nghaerdydd.

2014.38 *Cyfarfod Dioddefiadau*
Mae Dave Butler wedi anfon adroddiad 6 Medi'r Cyfarfod Dioddefiadau sydd wedi'i gofnodi.
Mae Frances Voelcker wedi siarad am y Cyfarfod ar 4 Hydref. Roedd yn teimlo bod cyfyngiadau amser wedi amharu ar y rhan gyntaf o'r cyfarfod, ond bu'r addoli yn sesiwn y prynhawn yn darparu gweinidogaeth a rannodd yr hyn y dylai'r Cyfarfod Dioddefiadau ei wneud. Bydd adroddiad Frances yn cael ei ddosbarthu i glercod y Cyfarfodydd Ardal.
Rydym yn diolch i'n cynrychiolwyr am yr adroddiadau hyn.

2014.39 *Materion Ymestyn Allan*
i. *Sioe Frenhinol Cymru*
Bu John Senior yn mynychu Sioe Frenhinol Amaethyddol Cymru yn Llanelwedd rhwng 21 a 24 Gorffennaf 2014. Unwaith eto gwahoddwyd Crynwyr i gymryd rhan yn y gweithgareddau ym Mhabell Eglwysi Ynghyd Cytûn.
Ar ddau o'r diwrnodau, bu Caffis Eglwys yn y prynhawn, ffenomenon hwyliog ryngweithiol nad oedd John yn gyfarwydd â hi, lle bu cyfranogwyr yn ystyried teithiau trên ffwdanus ochr yn ochr â'u siwrneiau ysbrydol. Roedd John yn difaru nad oedd yna gerbyd tawel na'r un twnnel â golau yn y pen draw.
Bob dydd roedd Cyfarfod Addoli'r Gornel Dawel. Ar y diwrnod olaf, ymunodd gweithiwr ar y stondin ar gyfer plannu coed olewydd ym Mhalesteina am y deng munud olaf: dywedodd y byddai eraill wedi hoffi dod hefyd, ond roedd cymaint i'w wneud… Soniodd John yn edifar am "borfeydd glas" a "dyfroedd llonydd". Rydym yn diolch i John am yr adroddiad hwn.

ii. *Eisteddfod Genedlaethol Llanelli*
Mae Carey Thomas wedi adrodd am yr amser a dreuliodd yn yr Eisteddfod ym mis Awst eleni – dywedodd fod John Lewis a hithau'n teimlo bod popeth wedi mynd yn dda ym mhabell Cytûn. Dywedodd Carey ei bod yn dda gwrando ar enwadau eraill yn cynnal eu gwasanaethau er nad

oeddent bob amser yn cytuno â'r cynnwys, ond fe wnaeth Carey fwynhau mynychu'r Offeren un noson gyda lleian o Lanelli.
Ymwelodd nifer o Grynwyr â'r babell a hefyd rhai ymholwyr – rhoddwyd pamffledi iddynt. Rydym yn diolch i Carey am yr adroddiad ac i John a Carey am y gwaith dan sylw.
Mae Lynn Moseley wedi siarad am ei syniadau ar gyfer digwyddiadau'r Crynwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y dyfodol. Hoffai i ni ystyried a oes rhywbeth penodol y gellir ei gynnig. Yn 2016, cynhelir yr Eisteddfod yn y Fenni. Mae heb fod yno ers can mlynedd. Gallai'r Crynwr, John Southall, fod yn destun i'w rannu yno - gellir cynnal darlithoedd yn y Babell Lên.
Fe'n hatgoffir bod llawer o ddarlithoedd yn cael eu cynnal yn yr Eisteddfod. Byddai'n bosibl i ni drefnu darlith o'r fath bob blwyddyn, nid am Grynwyr bob amser, ond un sy'n cyfleu neges Grynwraidd. Mae Lynn yn argymell y gellid sefydlu cronfa arbennig y gallai pobl gyfrannu iddi a gellid ei defnyddio wedyn i dalu siaradwyr.
Fe ddywed Jane Harries wrthym fod presenoldeb y Crynwyr yn gryf yn yr Eisteddfod eleni – nid ym mhabell Cytûn yn unig. Mae ein presenoldeb yn cael effaith gadarnhaol ar eglwysi eraill ac mae wedi darparu, hwyrach, sianel i syniadau nad ydynt efallai wedi eu mynegi o'r blaen.
Gofynnwn i'n Pwyllgor Enwebiadau ddod ag enwau Cyfeillion gerbron sy'n barod i gyfrannu i'r trefniadau uchod. Yna, gallai Cyfeillion wneud awgrymiadau i'r Pwyllgor hwnnw ynglŷn â digwyddiadau yn y dyfodol.

iii. *Posteri Wythnos y Crynwyr*
Trefnwyd y posteri a gynhyrchwyd eleni, a gafodd eu cyfieithu i'r Gymraeg, gan yr Adran Gyfathrebu yn Friends House. Pan ymwelodd y clerc, y swyddog gweinyddol a Huw Owen â Friends House ym mis Mehefin 2013, awgrymwyd y gallai Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru geisio am benodiad i fynychu cyfarfodydd Grŵp Prosiectau Friends House er mwyn cyflwyno llais o Gymru wrth ddewis yr arddull i'r posteri. Yn y dyfodol, efallai yr hoffem gynhyrchu ein posteri ein hunain ond efallai y byddai hyn yn gofyn bod cyllid Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru'n gallu rhoi cyllideb i'r Grŵp Prosiectau. Yn 2015, nid oes gan y Grŵp Prosiectau gyllideb, na chwaith cynullydd eto. Bydd y Grŵp Prosiectau'n adrodd yn ôl wrth gyfarfod yn y dyfodol unwaith eu bod wedi ymgynnull.

2014.40 Trefniadau – Penwythnos Preswyl
Ym mis Mehefin eleni (gweler Cofnod 2014.20), gofynnodd Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru am Gynulliad Preswyl ac mae penwythnos 27, 28 Chwefror a 1 Mawrth 2015 wedi'i nodi fel un lle nad oes digwyddiad ar y gweill gan yr un o'r pedwar Cyfarfod Ardal a fyddai'n cymryd rhan. Y testun yw "Cymryd y cam nesaf wrth gyflawni ein hymrwymiad i fod yn Gymuned Gynaliadwy", ac fe'i cynhelir yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen.
Siaradwyr posibl: Sunniva Taylor o Heddwch a Thystiolaeth Gymdeithasol y Crynwyr, Gill Westcott. Ein gobaith yw, cyhyd ag y mae'n bosibl, gall cyfranogwyr ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Bydd Frances Voelcker yn trefnu bod taflen a ffurflenni archebu yn cael eu hanfon i gyrddau lleol a byddai'n gwerthfawrogi derbyn enwau'r rhieni sydd â diddordeb cyn gynted ag y bo modd. Rydym yn gobeithio y gall rhai cyfranogwyr gyfrannu i gronfa fwrsari ac efallai y bydd cyfarfodydd ardal hefyd yn cyfrannu.

2014.41 *Llythyr Cymorth Cristnogol i'r Wasg – Gaza*
Gofynnodd Mari McNeil o Gymorth Cristnogol Cymru a fydden ni ac arweinwyr grwpiau ffydd eraill lofnodi llythyr ynglŷn â'r argyfwng yn Gaza; byddai'r llythyr hwn yn ymddangos yn y *Western Mail* a chyfryngau Saesneg a Chymraeg eraill. Cytunodd ymddiriedolwyr ac eraill yr ymgynghorwyd â nhw nad oedd unrhyw reswm i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru boeni am gynnwys y llythyr hwn o gwbl ac felly, atebodd y clerc Mari McNeil i'r perwyl hwn. Mae'r llythyr ynghyd â'i lofnodwyr wedi'i gofnodi.

2014.42 *Cymru'n Cofio 1914–1918*
Gwahoddwyd cynrychiolydd o Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru gan y Bwrdd Rhaglen yn Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar raglen Cymru'n Cofio 1914-1918 i ymaelodi â nhw. Cytunodd y

Cyfeillion y cysylltwyd â nhw y gallai llais y Crynwyr ar y panel fod yn bwysig. Penodwyd Alan Armstrong i gynrychioli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar Fwrdd Rhaglen Cymru'n Cofio 1914-1918 drwy'r weithdrefn 'Rhwng Cyfarfodydd'.

Prosiect pum mlynedd yw Cymru dros Heddwch a ariennir yn rhannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Fe'i harweinir gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru ac mae'n cynnwys amrywiaeth o bartneriaid, yn eu plith Prifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth, y Llyfrgell Genedlaethol, Cymdeithas y Cymod, Urdd Gobaith Cymru ac Academi Heddwch Cymru.
Mae'r prosiect yn anelu at godi ymwybyddiaeth o effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf ar unigolion a chymunedau yng Nghymru; pwysleisio traddodiad tangnefeddu Cymru (gan gynnwys gwrthwynebwyr cydwybodol); sbarduno trafodaeth genedlaethol am wrthdaro yn y byd modern a chwestiynu defnyddio rhyfel er mwyn 'datrys' problemau. Fel rhan o'r prosiect, anogir plant a phobl ifainc i ymchwilio i fywydau tangnefeddwyr yng Nghymru a rhannu gwybodaeth amdanynt.
Cynigiodd Jane Harries i gadw'r Cyfeillion yn hysbys am weithgareddau'r prosiect a thynnu sylw at ffyrdd y gallai Cyfeillion gymryd rhan. Gwefan Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yw www.wcia.org.uk

2014.43 ***Synod yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig***
Fe'n gwahoddir i anfon cynrychiolydd i Synod yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a gynhaliwyd yng Ngharno 18 Hydref 2014. Penodwyd Bryan Scrivener i gynrychioli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru drwy'r weithdrefn 'Rhwng Cyfarfodydd'.

2014.44 ***Materion yr Ymddiriedolwyr/y Trysorydd – Y Gyllideb ar gyfer 2015 a chwarter olaf 2014***
£9,600 oedd ein hincwm eleni; mae'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf ychydig yn fwy. Bydd ein treuliau y flwyddyn nesaf yn defnyddio hyn i gyd namyn £500. Felly, mae angen i ni gynyddu ein hincwm drwy naill ai gofyn i Gyfarfod Blynyddol Prydain neu'r Cyfarfodydd Ardal i gynyddu'r swm maent yn ei dalu i ni.
Er bod y fantolen yn edrych yn iach ar hyn o bryd, arian dynodedig yw llawer ohoni.
Gallwn lunio cyllideb fantoledig ar gyfer 2015 ar yr amod na fydd pwysau sydd heb eu hadnabod yn cael eu rhoi ar y cyfrif. Mae prosiectau sydd wedi'u hadnabod yn cynnwys y wefan, y bydd llawer ohoni'n cael ei dalu amdano gan Gronfa Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree. Rydym yn falch bod llyfrau'r Ymddiriedolaeth yn gwerthu'n dda.
Bu'r llyfrau aelodaeth yn costio dros £300 i Gyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru y llynedd. Mae rhai cyfarfodydd yn codi am y Rhestrau Aelodau, mae eraill yn eu rhoi am ddim i Gyfeillion. Mae'r ymddiriedolwyr yn argymell y dylid rhoi nifer bach o gopïau am ddim i swyddogion yn y dyfodol ac osgoi rhoi copïau i aelodau unigol. Rydym yn gofyn i'r clerc restru'r swyddogion sydd angen copi am ddim.

2014.45 ***Enwebiadau a Phenodiadau***

i. Penodiadau Rhwng Cyfarfodydd
Bryan Scrivener i gynrychioli'r Cyfeillion yng nghyfarfod blynyddol Synod Cenedlaethol Cymru yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig yn Neuadd y Pentre Carno ddydd Sadwrn 18 Hydref 2014.

Alan Armstrong i gynrychioli Cyfarfod y Cyfeillion yng Nghymru ar Fwrdd Rhaglen Cymru'n Cofio 1914–1918.

ii. Enwebiadau a geisir
- Cyd-glerc hyd at fis Rhagfyr 2016
- Un aelod o'r Grŵp Prosiectau i wasanaethu hyd at fis Rhagfyr 2016
- Rydym yn gofyn i Gyfarfod Ardal Canolbarth Cymru benodi Cyfaill i gynrychioli'r Crynwyr yng nghyfarfodydd cynllunio Eisteddfod 2015, i drefnu rota i babell Cytûn a threfnu'r Gornel Dawel, os mai'r Cyfeillion sy'n gyfrifol amdani. Cynhelir yr Eisteddfod ym Meifod, Powys.

iii Enwebiadau a dderbyniwyd

- Clerc cynorthwyol i wasanaethu o fis Ionawr 2015 hyd at fis Rhagfyr 2015 – Efa Wulle
- Golygydd Calon o fis Ionawr 2015 hyd at fis Rhagfyr 2017 – Stevie Krayer
- Un aelod o'r pwyllgor trefniadau o fis Ionawr 2015 hyd at fis Rhagfyr 2017 – Liz McDermott
- Grŵp Cynllunio'r Eisteddfod hyd at fis Rhagfyr 2017 – Christine Trevett, Gethin Evans, Lynn Moseley.

A bwrw bod yr enwau hyn yn dderbyniol a bod y Cyfeillion dan sylw'n fodlon gwasanaethu, fe'u penodir.

2014.46 Gerald Hewitson: ***Dysgu Sefyll Heb Ofn mewn Diymadferthedd Grymus – Sut Gallwn Ystyried Cofnod 36 a'n Hymrwymiad yng Nghaergaint***

Mae Gerald wedi siarad am y ffordd y buom cyn Crynwriaeth; y ffordd y buom yn ystod Crynwriaeth gynnar; y ffordd y buom fel Crynwyr yn America a chaethwasiaeth. Cymerodd oddeutu can mlynedd i Grynwyr America sylweddoli mai drwg o beth oedd caethwasiaeth.

Y ffordd yr ydym bellach. Rydym yn ymrafael â Chofnod 36 a'n Hymrwymiad yng Nghaergaint, ond does dim can mlynedd i'w cael gennym. Ai 'nos ddudew' ein cenedl ni yw hon? Beth sydd angen i ni ei wneud i roi Cofnod 36 ar waith?

Mae angen i ni gyrraedd mangre lle rydym i gyd yn gwneud newidiadau. Yr ysbryd sy'n goleuo ein tywyllwch os ydym yn agored iddo ac sy'n ein hysbrydoli i wneud pethau mewn ffordd wahanol. Dosberthir sgwrs Gerald gyda'r cofnodion ac rydym yn gobeithio y bydd yn cael ei rhoi ar y wefan yn fuan.

Gwrandewch, annwyl Gyfeillion, ar anogaeth cariad a'r gwirionedd yn eich calonnau. Ymddiriedwch ynddi fel arweiniad Duw y mae ei Oleuni'n dangos ein tywyllwch i ni ac yn dod â ni i fywyd newydd.

Rydym yn diolch i Gerald am ei gyflwyniad.

Ros Morley (clerc)
Jenny Sen (clerc cynorthwyol)